Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

# Cylch Gwaith Tîm Arwain Comisiynydd y Gymraeg

Dyddiad Cyhoeddi: Rhagfyr 2024
Dyddiad Adolygu: Rhagfyr 2026

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

# Cefndir

Prif nod Comisiynydd y Gymraeg, sefydliad annibynnol a grëwyd yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, yw hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Gwneir hyn drwy ddwyn sylw i'r ffaith bod statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru a thrwy osod safonau ar sefydliadau. Bydd hyn, yn ei dro, yn arwain at sefydlu hawliau i siaradwyr Cymraeg.

Bydd dwy egwyddor yn sail i'r gwaith:

- Ni ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru
- Dylai personau yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny

Manylion Cyswllt:


- Ffôn: 0345 6033 221
- E-bost: post@comisiynyddygymraeg.cymru
- Gwefan: comisiynyddygymraeg.cymru

Comisiynydd y Gymraeg
Uned 2, Bloc C
Doc Fictoria
Caernarfon LL55 1TH

# Cynnwys


1 Nod Tîm Arwain Comisiynydd y Gymraeg 1

2 Awdurdod 1

3 Tryloywder o ran anweithiau posibl gan y Comisiynydd: Rôl y Tîm Arwain 2

4 Cyfrifoldebau'r Tîm Arwain 2

5 Penderfyniadau yn ymwneud â Rhannau 4 – 6 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 3

6 Aelodaeth y Tîm Arwain 4

7 Effeithiolrwydd 4

8 Datgan buddiannau 4

9 Rhoddion a Lletygarwch 4

10 Cyfarfodydd 5

Atodlen 1: Ymddygiad y Tîm Arwain 7

# 1 Nod Tîm Arwain Comisiynydd y Gymraeg

1.1 Mae'r Tîm Arwain yn gyfrifol am:

- ddiffinio a chymeradwyo cyfeiriad strategol gwaith Comisiynydd y Gymraeg (y "Comisiynydd") a gosod amcanion heriol;
- cynnig arweiniad strategol effeithiol fel y gall Comisiynydd y Gymraeg fodloni ei gyfrifoldebau a'i ddyletswyddau o dan Fesur y Gymraeg (2011) gan ganolbwyntio ar ddeilliannau;
- cynorthwyo i weithredu pwerau, swyddogaethau a dyletswyddau'r Comisiynydd priodol ac effeithiol;
- gwneud penderfyniadau gwybodus a thryloyw;
- cynllunio busnes a rhaglennu gwaith gyda ffocws ar werth am arian;
- hyrwyddo safonau uchel o ran cyllid cyhoeddus, gan gynnal egwyddorion rheoleidd-dra, priodoldeb a gwerth am arian;
- goruchwylio a monitro perfformiad lefel uchaf, er mwyn sicrhau bod y Comisiynydd yn llwyr gyflawni ei amcanion;
- arddangos safonau uchel o ran llywodraethau corfforaethol ac uniondeb a sicrhau bod trefniadau effeithiol ar waith er mwyn rhoi sicrwydd o ran rheoli risg a rheolaeth fewnol;
- arddangos gwerthoedd y Comisiynydd ym mhob peth a wneir;
- sicrhau bod atebolrwydd yn real.

1.2 Yn y pen draw, y Tîm Arwain yw'r prif fforwm ar gyfer gwneud penderfyniadau strategol am faterion gweithredu, adnoddau, cyfathrebu a materion gweinyddol eraill er mwyn gweithredu'r cynllun strategol a'r holl brosesau cynllunio busnes eraill, ac ar gyfer monitro perfformiad.

# 2 Awdurdod

2.1 Mae'r awdurdod ar gyfer y Tîm Arwain yn deillio o'r Comisiynydd.

2.2 Fel Corfforaeth Un-Dyn, y Comisiynydd sydd â'r holl bwerau a dyletswyddau ffurfiol. Yn unol â graddfa a chymhlethdod rôl y Comisiynydd, mae'r Comisiynydd wedi dirprwyo cyfrifoldebau i staff i arfer rhai o'r dyletswyddau. Mae'r Cylch Gwaith hwn yn nodi'r hyn sydd wedi ei ddirprwyo i'r Tîm Arwain.

2.3 Er yr uchod mae gan y Comisiynydd yr hawl, fel Corfforaeth Un-Dyn i wneud penderfyniadau sydd yn groes i farn y mwyafrif o'r Tîm Arwain. Disgwylir mai eithriad fydd sefyllfaoedd pan fo'r Comisiynydd yn gweithredu'n groes i farn mwyafrif y Tîm Arwain ac nid mater o drefn. Pan fo'r Comisiynydd yn arfer yr hawl yma, bydd hyn yn cael ei nodi o fewn cofnodion unrhyw gyfarfod o'r Tîm Arwain.

2.4 Mae rôl y Tîm Arwain o ran penderfyniadau yn cydnabod, ar adegau, y bydd rhai materion y mae'r Comisiynydd ei hun yn penderfynu arnynt. Caiff penderfyniadau am faterion rheoleiddio eu gwneud y tu allan i'r Tîm Arwain. Ceir eglurhad pellach am hynny yn adran 5 isod.

# 3 Tryloywder o ran anweithiau posibl gan y Comisiynydd: Rôl y Tîm Arwain

3.1 Mae gan aelodau'r Tîm Arwain gyfrifoldeb penodol i weithredu os ydynt yn credu bod y Comisiynydd yn gweithredu'n anghyfreithlon neu'n groes i'w ddyletswyddau. Mae disgwyl i aelodau'r Tîm Arwain weithredu yn unol â'r Polisi Chwythu'r Chwiban pan maent yn credu:

- bod y Comisiynydd (neu unrhyw swyddog arall) wedi methu, yn methu neu'n debygol o fethu â chydymffurfio ag unrhyw rwymedigaeth gyfreithiol sydd arno; a/neu
- bod y Comisiynydd (neu unrhyw swyddog arall) yn gweithredu'n groes i'w dyletswyddau;
- bod camweinyddiad cyfiawnder wedi digwydd, yn digwydd neu'n debygol o ddigwydd; a/neu
- bod iechyd neu ddiogelwch unrhyw unigolyn wedi'i beryglu, yn cael ei beryglu neu'n debygol o gael ei beryglu; a/neu
- bod yr amgylchedd wedi'i niweidio, yn cael ei niweidio neu'n debygol o gael ei niweidio; a/neu
- bod gwybodaeth sy'n dueddol o ddangos unrhyw fater uchod wedi cael, yn cael neu'n debygol o gael ei gelu'n fwriadol.

3.2 Bwriad y cyfrifoldeb hwn yw rhoi sicrwydd eglur a thryloyw i Weinidogion Cymru a'r cyhoedd y bydd safonau uchel y Swydd hon yn cael eu diogelu.

# 4 Cyfrifoldebau'r Tîm Arwain

4.1 Gweler Atodlen 1 am restr (nad yw'n holl gynhwysfawr) o ymddygiad disgwyliedig y Tîm Arwain fel endid.

4.2 Mae'r materion isod yn cael ei ystyried gan y Tîm Arwain fel endid (ond nid yw wedi'i gyfyngu i'r isod):

### Llywodraethu a Rheoli

- Cynghori'r Comisiynydd wrth iddo weithredu ei holl ddyletswyddau cyffredinol, arfer ei bwerau a'i swyddogaethau ac wrth gynnal ei weithgareddau
- Cymeradwyo Cylch Gorchwyl Pwyllgor Archwilio a Risg, Panel Cynghori ayyb
- Cymeradwyo agenda a chofnodion Pwyllgor Archwilio a Risg a'r Panel Cynghori
- Cymeradwyo cynllun dirprwyo ariannol
- Cymeradwyo'r strategaeth a'r egwyddorion ar gyfer rheoli risg ac yna monitro risg ar lefel sefydliadol
- Cymeradwyo'r Adroddiad 5 mlynedd
- Gwneud penderfyniadau yn dilyn argymhellion gan archwilwyr mewnol

- Craffu ar faterion sy'n codi (Adnoddau Dynol/Cydraddoldeb/Iechyd a Diogelwch/Eithriad/Cynllun Gweithredol/Seibr/Cyllid)

### Apwyntiadau

- Apwyntiadau aelodau Pwyllgor Archwilio a Risg
- Cytundebau fframwaith corfforaethol
- Cytundeb Archwilwyr Mewnol

### Strategaeth, Cynllun Busnes a Chyllideb

- Monitro perfformiad y corff
- Cymeradwyo (gan gynnwys amrywio) Strategaethau Corfforaethol, Cynlluniau Strategol, a 'r Cynllun Gweithredol, ac yna monitro cynnydd yn eu herbyn
- Cymeradwyo mesuryddion perfformiad
- Cymeradwyo cynlluniau rhaglenni gwaith hir dymor/prosiectau mawr
- Ystyried gwerth am arian
- Cadw gorolwg o sefyllfa ariannol y sefydliad drwy dderbyn a thrafod adroddiadau cyllid yn fisol
- Cytuno amcangyfrif
- Cymeradwyo a chyflwyno adroddiad blynyddol a chyfrifon i Archwilydd Cyffredinol Cymru, y Gweinidog a'r Senedd
- Cymeradwyo'r gyllideb flynyddol, yn amodol ar gymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru
- Cymeradwyo unrhyw negeseuon allanol pwysig
- Cymeradwyo strategaeth gyfathrebu

### Penderfyniadau gweithredol

- Cymeradwyo datblygiadau mawr a newidiadau i'r sefydliad
- Cymeradwyo cynnwys polisïau strategol a chorfforaethol/gweithdrefnau/codau ymddygiad
- Cymeradwyo'r cylch cyflog
- Awdurdodi cytundebau partneriaeth

# 5 Penderfyniadau yn ymwneud â Rhannau 4 – 6 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

5.1 Mae prosesau statudol i'w dilyn wrth i'r Comisiynydd fynd ati i arfer rhai o'i swyddogaethau yn nghyswllt Rhannau 4 - 6 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Mae Polisi Gorfodi'r Comisiynydd yn manylu ar rai o'r agweddau sydd ynghlwm a'r prosesau hynny.

5.2 Y Cyfarfod Dyfarnu yw'r fforwm trafod yng nghyswllt penderfyniadau Rhan 4- 6 o'r Mesur y Gymraeg (Cymru 2011). Mae Cylch Gwaith ar wahân yn bodoli ar gyfer y fforwm hwn.

# 6 Aelodaeth y Tîm Arwain

6.1 Mae aelodaeth y Tîm Arwain fel a ganlyn:

- Comisiynydd y Gymraeg (Cadeirydd)
- Cyfarwyddwyr Comisiynydd y Gymraeg

6.2 Bydd disgwyl i aelodau ystyried unrhyw anghenion hyfforddi a datblygu sydd ei angen arnynt fel rhinwedd o fod yn aelod o'r Tîm Arwain a thrafod hyn gyda'r Comisiynydd. Bydd y Swyddog Adnoddau Dynol yn gweithredu ar drefnu hyfforddiant perthnasol.

# 7 Effeithiolrwydd

7.1 Bydd y Tîm Arwain yn sicrhau bod trefniadau mewn lle i'w galluogi i gyflawni eu cyfrifoldebau'n effeithiol, gan gynnwys hunan adolygiad blynyddol ffurfiol o berfformiad y Tîm (fel fforwm; bydd gwerthusiad o aelodau unigol o'r Tîm Arwain yn cael ei gynnal gan y Comisiynydd). Bydd yr hunan adolygiad, dan arweiniad y Cadeirydd yn ystyried adborth gan aelodau'r Tîm Arwain, unrhyw wersi a ddysgwyd, a gwelliannu posibl.

# 8 Datgan buddiannau

8.1 Bydd pob aelod o'r Tîm Arwain (a gweddill staff y Comisiynydd) yn cwblhau datganiad buddiannau pob chwe mis. Bydd datganiadau buddiannau aelodau'r Tîm Arwain, aelodau Pwyllgor Archwilio a Risg, aelodau'r Panel Cynghori yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Comisiynydd. Bydd hyn yn hybu tryloywder a llywodraethu cadarn.

8.2 Bydd disgwyl i aelodau'r Tîm Arwain (ynghyd â gweddill staff y Comisiynydd) roi gwybod i'r Swyddog Llywodraethiant pe byddai unrhyw newid o ran eu buddiannau cyn gynted ag sy'n bosib.

8.3 Os bydd gan aelod, neu unrhyw berthynas iddo ef neu hi, ddiddordeb ariannol neu ddiddordeb perthnasol neu sylweddol arall, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, mewn unrhyw fater sy'n ymwneud â'r Cyfarfod o'r Tîm Arwain, bydd gofyn i'r aelod neu'r swyddog ddatgelu'r ffaith honno cyn trafod yr eitem honno ac ni fydd yn cymryd rhan wrth drafod y mater, nac yn pleidleisio ar unrhyw gwestiwn mewn cysylltiad ag ef.

# 9 Rhoddion a Lletygarwch

9.1 Mae rhoi neu dderbyn rhodd neu letygarwch yn creu perthynas a allai ddylanwadau ar waith ac annibyniaeth y Comisiynydd. Dylai aelodau'r Tîm Arwain osgoi

rhoddion/lletygarwch sydd yn ymwneud a'u gwaith, neu a all gael ei ystyried o fod yng nghlwm a'u gwaith ac eithrio mewn amgylchiadau cyfyngedig iawn

9.2 Disgwylir i aelodau'r Tîm Arwain gydnabod y gallai'r ffaith i aelodau dderbyn rhoddion a lletygarwch fod yn agored i graffu. Dylid hysbysebu'r Swyddog Llywodraethiant am unrhyw gynigion a wnaed ac unrhyw gynigion a wrthodwyd. Dylid sicrhau fod cofnod o unrhyw roddion neu letygarwch a dderbyniwyd, neu gwrthodwyd yn cael ei wneud ar Gofrestr Rhoddion.

# 10 Cyfarfodydd

10.1 Caiff cyfarfodydd y Tîm Arwain eu cynnal yn rhithiol, fel rheol ond gallant gael eu cynnal wyneb yn wyneb. Anelir at gynnal o leiaf un cyfarfod wyneb yn wyneb i drafod materion strategol yn unig pob tymor.

10.2 Fel arfer bydd cyfarfod o'r Tîm Arwain yn cael ei gynnal pob pythefnos. Trefnir cyfarfod ychwanegol os bydd mater pwysig yn codi ble mae angen sylw neu benderfyniad ar frys gan y Tîm Arwain.

10.3 Ac eithrio mewn amgylchiadau arbennig, bydd y materion islaw yn cael eu trafod ym mhob cyfarfod o'r Tîm Arwain;

- cofnodi enwau aelodau sy'n bresennol yn y cyfarfod ar ddalen fynychu, a derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb;
- datgan unrhyw ddiddordeb gan unrhyw aelod;
- dewis aelod i lywyddu os bydd y Cadeirydd yn absennol;
- derbyn a chymeradwyo Cofnodion cyfarfod blaenorol y Tîm Arwain fel cofnod cywir, ac ystyried materion sy'n codi;
- unrhyw fater sydd ar yr agenda.

10.4 Caiff cofnodion y cyfarfod o'r Tîm Arwain, yn ogystal ag adroddiadau sydd gerbron y Tîm Arwain eu cadw mewn lleoliad sydd yn agored i holl staff swyddfa'r Comisiynydd. Pan fod angen trafod eitem o natur sensitif, bydd cyfarfod caeedig o'r Tîm Arwain yn cael ei alw. Ni chaiff y munudau, na'r adroddiadau hynny eu cadw mewn lleoliad sydd yn agored i staff.

10.5 Bydd cworwm mewn cyfarfod ar gyfer eitem benodol ar yr agenda os oes 2 aelod o'r Tîm Arwain yn bresennol ar gyfer yr eitem gyfan/eitemau cyfan.

10.6 Bydd materion sydd angen penderfyniad y Tim Arwain yn cael eu trafod yn ystod cyfarfod o'r Tîm Arwain, fel mater o drefn. Fodd bynnag, gall y Tîm Arwain wneud penderfyniad dros e-bost lle bo angen.

10.7 Os na cheir penderfyniad trwy fwyafrif, bydd gan y Comisiynydd ail bleidlais p'un a ydyw wedi pleidleisio ar y mater o'r blaen neu beidio.

10.8 Y Swyddog Cefnogi Corfforaethol fydd fel arfer yn darparu ysgrifenyddiaeth i'r cyfarfod o'r Tîm Arwain ac yn llunio cofnodion. Gall swyddogion cefnogi eraill yn y sefydliad wneud hynny yn ei absenoldeb.

10.9 Ni fydd Swyddogion yn mynychu'r cyfarfod fel mater o drefn. Fodd bynnag, gall y Tîm Arwain ofyn i Swyddogion penodol fynychu i gyflwyno mater penodol. Yn yr amgylchiadau hynny, bydd y sawl sydd yn cofnodi yn ystod y cyfarfod yn rhoi gwybod i'r swyddog bod y Tîm Arwain yn barod i glywed ganddynt ac yn eu gadael i mewn i'r cyfarfod. Ni fydd angen iddynt fod yn bresennol drwy gydol y Cyfarfod, fel mater o drefn. Ni fydd gan fynychwyr nad ydynt yn aelodau o'r Bwrdd yr hawl i bleidleisio.

# Atodlen 1: Ymddygiad y Tîm Arwain

Mae saith egwyddor bywyd cyhoeddus Nolan yn berthnasol i'r rheiny sydd wedi eu penodi yn gyhoeddus (gan gynnwys y Comisiynydd) ac i bawb sy'n gweithio neu yn rhan o wasanaeth cyhoeddus. Mae'r Comisiynydd yn hyrwyddo'r egwyddorion a nodir isod ac yn ymdrechu i lynu wrthynt, ac yn disgwyl i'r swyddogion a'r staff i wneud yr un peth.

### Anhunanoldeb

Dylai deiliaid swyddi cyhoeddus weithredu er budd y cyhoedd yn unig.

### Uniondeb

Rhaid i ddeiliaid swyddi cyhoeddus osgoi rhoi eu hunain o dan ymrwymiaeth i bobl neu sefydliadau a allai geisio dylanwadu'n amhriodol arnynt yn eu gwaith. Ni ddylent weithredu na gwneud penderfyniadau er mwyn sicrhau manteision ariannol neu faterol ar gyfer eu hunain, eu teulu na'u ffrindiau. Dylent ddatgan a datrys unrhyw ddiddordebau a pherthnasau.

### Gwrthrychedd

Rhaid i ddeiliaid swyddi cyhoeddus weithredu a gwneud penderfyniadau yn ddiduedd, yn deg ac yn ôl teilyngdod, gan ddefnyddio'r dystiolaeth orau heb wahaniaethu na dangos rhagfarn.

### Atebolrwydd

Mae deiliaid swyddi cyhoeddus yn atebol i'r cyhoedd am eu penderfyniadau a'u gweithredoedd ac mae'n rhaid iddynt ymostwng i bob archwiliad sy'n angenrheidiol er mwyn sicrhau hynny.

### Bod yn Agored

Dylai deiliaid swyddi cyhoeddus weithredu a gwneud penderfyniadau mewn modd agored a thryloyw. Ni ddylid celu gwybodaeth rhag y cyhoedd oni bai fod yna resymau clir a chyfreithlon dros wneud hynny.

### Gonestrwydd

Dylai deiliaid swyddi cyhoeddus fod yn onest.

### Arweinyddiaeth

Dylai deiliaid swyddi cyhoeddus arddangos yr egwyddorion hyn yn eu hymddygiad eu hunain. Dylent hyrwyddo'r egwyddorion yn weithredol a'u cefnogi'n gadarn a bod yn barod i herio enghreifftiau o ymddygiad gwael.